




Canllawiau arfer gorau diweddar Cadw — mae pob un ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan Cadw (www.cadw.llyw.cymru)




Bydd **Deall Rhestru yng Nghymru** yn helpu unrhyw un sydd am wybod pam a sut y caiff adeiladau eu rhestru neu y mae angen iddo wybod hynny. Mae hefyd yn esbonio sut i ofyn am i adeilad gael ei restru neu ei ddadrestru a sut i wneud cais am adolygiad o benderfyniad rhestru. Mae'r cyhoeddiad darluniadol hwn hefyd yn rhoi cyflwyniad i berchenogion, meddianwyr ac asiantau i'r hyn y mae rhestru yn ei olygu iddynt. (Medi 2018)




Mae **Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru** yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth wneud newidiadau i adeiladau rhestredig ac mae'n esbonio sut i wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol a Cadw. Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at berchenogion adeiladau rhestredig ac asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan er mwyn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar adeilad rhestredig a gwneud newidiadau iddo. (Mai 2017)




Mae **Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru** yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i asedau hanesyddol a gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydysyniad heneb gofrestredig. Mae'r ddogfen ganllaw arfer gorau hon wedi'i hanelu'n bennaf at berchenogion, deiliaid ac asiantau asedau hanesyddol. Bydd yn helpu i ddeall pam, pryd a sut i ddefnyddio proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ac i ysgrifennu datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. (Mai 2017)




Mae **Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru** yn amlinellu'r berthynas allweddol rhwng y defnydd a wneir o adeilad, ei berchnogaeth a'i gyflwr, a sut y gellir rheoli'r cydbwysedd gofalus rhwng yr elfennau hyn er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae hefyd yn amlinellu rolau chyfrifoldebau perchnogion, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n dangos sut y gall polisïau a rhaglenni ar gyfer rheoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl fod yn llwyddiannus, ond hefyd yn esbonio'r pwerau statudol y gelli eu defnyddio i warchod adeiladau rhestredig sydd mewn perygl lle y bo hynny'n briodol. Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf ar gyfer adrannau cadwraeth, cynllunio, tai, adfywio a datblygu awdurdodau lleol. Gall hefyd fod o ddiddordeb i berchnogion, deiliaid ac asiantau, yn ogystal â chymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sydd â rôl hollbwysig yn y gwaith o ofalu am adeiladau rhestredig sydd mewn perygl. (Mai 2017)




Mae'r ddogfen **Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru** yn amlinellu'r cyd-destun polisi o ran dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth a dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol. Hefyd, mae'n nodi prif elfennau arfer gorau o ran eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisiâu lleol ynghylch rheoli cadarnhaol a gwella fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau dull gweithredu cyson o ran dynodi, arfarnu a rheoli ardaloedd cadwraeth ledled Cymru. (Mai 2017)




Mae **Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru** yn nodi egwyddorion cyffredinol ac arferion da ar gyfer llunio a rheoli rhestrau o asedau hanesyddol lleol — gan gynnwys meini prawf, enwebu, ymgynghori, dilysu, apelau a monitro — ac yn rhoi arweiniad ar sut y dylid eu defnyddio yn y system gynllunio. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol, ond hefyd at sefydliadau yn y trydydd sector a pherchenogion asedau hanesyddol, er mwyn annog pob sector i gydweithio i warchod a gwella asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. (Mai 2017)



Mae **Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: Esemptiad Eglwysig** yn egluro gweithrediad y Gorchymyn Esemptiad Eglwysig. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol y mae'n rhaid eu hystyried wrth ystyried newidiadau i addoldai hanesyddol sy'n dod o dan y Gorchymyn, a'r egwyddorion a'r arferion penodol y mae angen eu cynnwys yn y broses benderfynu. Mae'r canllawiau arfer gorau hyn wedi'i anelu'n bennaf at yr enwadau hynny sydd eisoes wedi'u heithrio, yn ogystal ag awdurdodau cynllunio lleol, cynulleidfaoedd ac unigolion sydd â diddordeb mewn amddiffyn addoldai hanesyddol. (Tachwedd 2018)




Mae **Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru** yn egluro pam ei bod yn bwysig adnabod nodweddion hanesyddol a defnyddio hyn fel sail i waith cadwraeth, adfywio a chynllunio. Dengys sut y gall polisiâu a rhaglenni i reoli newid ddwyn ysbrydoliaeth o'r gorffennol er mwyn helpu i greu a chynnal mannau nodedig at y dyfodol. Mae'r canllawiau hyn wedi'i anelu yn bennaf at adrannau cadwraeth, cynllunio, tai, adfywio a datblygu awdurdodau lleol. Bydd hefyd o ddiddordeb i gyrff cyhoeddus eraill, cymunedau lleol a sefydliadau trydydd sector, yn ogystal â pherchenogion, datblygwyr ac asiantau, sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o nodi, hyrwyddo a gofalu am nodweddion hanesyddol lleol. (Mai 2017)




Mae **Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru** yn esbonio beth yw lleoliad, sut mae'n cyfrannu ar arwyddocâd ased hanesyddol a pham mae'n bwysig. Mae hefyd yn nodi'r egwyddorion a ddefnyddir i asesu effaith bosibl cynigion datblygu neu gynigion ar gyfer rheoli tir o ferwn lleoliadau Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion (cofrestredig ac anghofrestredig), adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth. Mae'r canllawiau arfer gorau hyn wedi'u hanelu at ddatblygwyr, perchenogion, deiliaid ac asiantau, a ddylai ei ddefnyddio i lywio cynlluniau rheoli a chynigion ar gyfer newid a all effeithio ar arwyddocâd ased hanesyddol a'i lleoliad. (Mai 2017)




Mae **Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru** yn rhestru'r egwyddorion cyffredinol y dylid cadw atyn nhw wrth reoli a gwneud newidiadau i henebion cofrestredig. Mae'n esbonio sut i wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r perchennog a Cadw. Prif gynulleidfa'r canllaw hwn o'r arferion gorau yw perchenogion, meddianwyr a rheolwyr henebion cofrestredig. Mae'n esbonio'r hyn y mae bod yn berchen ar heneb yn ei olygu, sut mae gofalu amdani a ble i fynd am help. (Tachwedd 2018)



Mae **Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru** yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth ystyried newidiadau a all gael effaith ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Mae'n egluro statws y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru a'i lle yn y system gynllunio, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol, cymdeithasau amwynderau a Cadw. Er bod y gofrestr yn statudol, nid yw'r broses gofrestru yn cyflwyno unrhyw gyfundrefnau caniatâd newydd. Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at berchenogion parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ac asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, er mwyn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig a rheoli newidiadau sy'n effeithio arno/arni. (Mai 2017)




Mae **Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru** yn cyflwyno'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer deall a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yma yng Nghymru, gan gynnwys sut maen nhw'n cael eu diogelu drwy'r system gynllunio. Mae'r arweiniad arferion gorau hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, ymgwymerwyr statudol a darpar ddatblygwyr, er mwyn codi proffil Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a'u helpu i reoli newid heb gael effaith andwyol ar eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i reolwyr a rhanddeiliaid Safleoedd Treftadaeth y Byd er mwyn llywio cynlluniau rheoli, law yn llaw ag Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention UNESCO. (Mai 2017)




Mae **Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio** wedi'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru fel canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru o dan bwerau yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'n esbonio sut y gallai'r cyrff cyhoeddus hynny gyfrannu at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a sut y dylent ddefnyddio'r cofnodion hynny wrth gyflawni eu swyddogaethau. Er bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a enwir ystyried y canllawiau, byddant yn berthnasol i ystod o gyrff cyhoeddus a gwirfoddol eraill, a chyrff eraill yn y sector preifat, yn ogystal ag unigolion â diddordeb yn amgylchedd hanesyddol Cymru. (Mai 2017)


Cyhoeddiadau eraill o ddiddordeb




Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy
Mae Egwyddorion Cadwraeth Cadw yn llywio ein dull o amddiffyn a rheoli'r amgylchedd hanesyddol.



Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn amlinellu polisiâu Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio bod rheolaeth newid gadarnhaol yn yr amgylchedd hanesyddol yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o natur ac arwyddocâd asedau hanesyddol a chydabod y buddion y gallant eu darparu mewn diwylliant ac economi fywiog.



Mae **Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol** yn cynnwys canllawiau manwl ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau gynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig.



Mae **Cyflwyno Cadw** yn rhoi cyflwyniad byr i Cadw a'i waith. Mae'n egluro safle Cadw yn Llywodraeth Cymru a'i strwythur mewnol ac yn amlinellu blaenoriaethau'r sefydliad a sut mae'n eu cyflawni (Gorffennaf 2019)

Gwybodaeth am asedau hanesyddol unigol yng Nghymru

Mae yna cofnodion manwl ar asedau hanesyddol yng Nghymru i helpu perchnogion, cyrff statudol ac eraill i ddeall eu harwyddocâd ac ymgymryd â'u rheolaeth gynaliadwy.

Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru

Mae Cof Cymru yn darparu mynediad ar-lein am ddim i gofnodion Cadw ar henebion rhestredig, adeiladau rhestredig, tirweddau cofrestredig o ddiddordeb hanesyddol, llongddrylliadau gwarchodedig a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mae'r adnodd, sy'n seiliedig ar fapiau, yn caniatáu i ddefnyddwyr i leoli safleoedd, pennu eu maint a lawrlwytho disgrifiadau. Bydd parciau a gerddi hanesyddol yn cael eu harddangos ar y safle tua diwedd 2019 ar ôl cwblhau adolygiad o safleoedd presennol cyn cyflwyno cofrestr statudol o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

<https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru>

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn rhoi gwybodaeth fanwl am amgylchedd hanesyddol ardal benodol. Lluniwyd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru o ganlyniad i ddegawdau o waith ymchwil ac ymchwiliadau.

Mae Archwilio yn caniatáu i'r cyhoedd weld, yn rhad ac am ddim, gofnodion yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n cynnwys (neu'n rhoi mynediad i):

- wybodaeth am ddegau o filoedd o safleoedd hanesyddol;
- miloedd o gofnodion sy'n ymwneud ag ymchwiliadau yng Nghymru;
- cofnodion cannoedd ar filoedd o enwau lleoedd hanesyddol.

Mae gwybodaeth ychwanegol a gedwir gan yr ymddiriedolaethau archaeolegol rhanbarthol yn ategu'r cofnodion craidd sydd ar wefan Archwilio. Yn ogystal â bod yn ddefnyddiol i ymchwilyr preifat ac academiaidd, mae'r wybodaeth yn hollbwysig i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Mae'n rhoi sail i gyngor strategol ac yn helpu i reoli achosion pan fo cynigion datblygu neu gynlluniau amaeth-amgylcheddol, coedwigaeth a choetiroedd yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

<https://archwilio.org.uk/arch/>